

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

**Datganiad Sefyllfa**  
**Awdurdod Addysg Lleol Sir y Fflint**

Mawrth 2021

## **Datganiad Sefyllfa Awdurdod Addysg Lleol Sir y Fflint i Archwiliad Cyhoeddus y CDLI** **Safleoedd Strategol a Dyranedig a'r Effaith bosibl ar y Rhwydwaith Ysgolion Lleol**

### **1. Y CDU blaenorol yng nghyd-destun Ysgolion Sir y Fflint a Chynllunio Lleoedd Ysgol**

1.1 Roedd y CDU blaenorol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2000 a 2015. O fewn y cynllun hwn, darparwyd unedau tai sylweddol yn y Sir.

1.2 Mabwysiadwyd y Mesur Capasiti Ysgolion cyfredol yng Nghymru yn 2007. Mae Tablau 1 a 2 yn darlunio capasiti ysgolion, niferoedd disgyblion a lleoedd heb eu llenwi yn 2007 a 2015, ac mae'n gweithredu fel cymharydd.

**Tabl 1: Cynradd**

	<b>2007</b>	<b>2015</b>	<b>Cymhariaeth</b>
Nifer ar y Gofrestr	12642	12226	-416
Capasiti'r Ysgol	14293	14179	-114
Lleoedd heb eu llenwi	1675	1953	+278

**Tabl 2: Uwchradd**

	<b>2007</b>	<b>2015</b>	<b>Cymhariaeth</b>
Nifer ar y Gofrestr	10651	9563	-1088
Capasiti'r Ysgol	11863	11707	-156

Lleoedd heb eu llenwi	1212	1523	+311
-----------------------	------	------	------

1.3 Cyn 2015, cafodd Awdurdodau Lleol ddyraniad cyfalaf blynyddol wedi'i ariannu gan fformiwla gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn eu blaenoriaethau ar gyfer ystâd yr ysgol. Ar yr adeg hon nid oedd y symiau a dderbyniwyd gan Awdurdodau yn ddigonol i alluogi penderfyniadau strategol a buddsoddiad yn ymwneud ag ystâd yr ysgol.

1.4 Fodd bynnag, ers cyflwyno cyllid Ysgol yr 21ain Ganrif yn 2014, mae lefel y buddsoddiad cyfalaf a'r argaeledd i raglennu y tu hwnt i gyfnod o flwyddyn i ddwy flynedd wedi rhoi llwyfan priodol i ALLau ystyried a gweithredu buddsoddiad strategol ar raddfa fawr yn eu portffolios ysgol.

1.5 Mae data ysgolion ym mis Medi 2020 ar draws y rhwydwaith cynradd ac uwchradd, wedi'i nodi isod. Ni ddylai targed Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoedd heb eu llenwi fod yn fwy na 10%.

**Tabl 3:**

<i>(ystadegau mis Medi 2020)</i>	<b>Cynradd</b>	<b>Uwchradd</b>
<b>Nifer ar y Gofrestr</b>	11952	9559
<b>Capasiti'r Ysgol</b>	14059	10718
<b>Lleoedd heb eu llenwi</b>	2107	1159
<b>% lleoedd heb eu llenwi</b>	14.99%	10.81%

1.6 Mae'r tablau'n adlewyrchu sefyllfa'r Sir ar y cyfan o ran lleoedd heb eu llenwi. Mae yna nifer o ardaloedd yn y Sir lle mae pwysau am leoedd disgyblion mewn ysgolion unigol.

1.7 Mae'r ddogfen "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" yn darparu arweiniad ar sut i fesur y capasiti mewn Ysgolion Awdurdod Cymreig. Mae'r asesiad hwn o gapasiti'r ysgol yn cynnwys rhannau o'r ysgol nad ydynt yn ystafelloedd dosbarth, a thrwy hynny nid yw'r holl leoedd heb eu llenwi yn lleoedd "sbâr" ac ar gael ar gyfer disgyblion ychwanegol.

## **2. Amcanestyniadau o Niferoedd Disgyblion**

2.1 Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd hanesyddol y disgyblion o 2015, ac amcanestyniadau o leoedd disgyblion yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, hyd at 2025. Mae'r amcanestyniadau hyn yn dangos y bydd nifer y disgyblion o fewn ystod oedran cynradd yn debygol o ostwng hyd at 971 dros y pum mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y duedd ar lefel uwchradd yn lleihau hyd at 184 o ddisgyblion.

2.2 Cynhyrchir amcanestyniadau bob dwy flynedd ac maent yn defnyddio derbyniadau ysgolion blaenorol i ragweld niferoedd ar y gofrestr yn y dyfodol. Ni chynhwysir niferoedd y disgyblion sy'n debygol o gael eu cynhyrchu o ddatblygiadau tai, a fyddai'n cael eu cyfrif gan ddefnyddio fformiwla SPGN23. Mae hyn oherwydd y nifer fawr o newidynnau dan sylw, er enghraifft, pryd fydd yr unedau'n cael eu hadeiladu; beth fydd y nifer terfynol o unedau a gaiff eu hadeiladu; faint o'r unedau hyn fydd yn gymwys i'w cynnwys yn fformiwla SPGN23; a dewis rhieni.


2.3 Fel y gellir disgwyl, gall poblogaethau disgyblion mewn ysgolion, o fewn ardaloedd a ledled y Sir gyfan amrywio dros amser, sy'n golygu efallai na fydd ysgolion sydd dan bwysau am leoedd heddiw yn yr un sefyllfa ymhen ychydig flynyddoedd, ac i'r gwrthwyneb hefyd. Er bod digon o gapasiti ar hyn o bryd ar lefelau cynradd ac uwchradd ledled y Sir yn gyffredinol, efallai na fydd y lleoedd hyn o reidrwydd ar gael lle mae'r galw ar ei uchaf.

### **Tabl 4 – Poblogaeth gyffredinol disgyblion 2015-2025**

	Actual					Latest	Forecast				
Date	Sep-15	Sep-16	Sep-17	Sep-18	Sep-19	Sep-20	Sep-21	Sep-22	Sep-23	Sep-24	Sep-25
Primary NoR	12,224	12,301	12,397	12,326	12,213	11,952	11,637	11,448	11,213	11,051	10,981
Seceonday NoR	9,563	9,403	9,188	9,314	9,471	9,559	9,646	9,737	9,676	9,551	9,375
<b>Total NoR</b>	<b>21,787</b>	<b>21,704</b>	<b>21,585</b>	<b>21,640</b>	<b>21,684</b>	<b>21,511</b>	<b>21,283</b>	<b>21,185</b>	<b>20,889</b>	<b>20,602</b>	<b>20,356</b>


### Y Sector Cynradd

	Actual					Latest	Forecast				
Date	Sep-15	Sep-16	Sep-17	Sep-18	Sep-19	Sep-20	Sep-21	Sep-22	Sep-23	Sep-24	Sep-25
Primary Schools	68	64	64	64	64	64	64	64	64	64	64
Primary Capacity	14,179	13,979	14,001	13,997	14,053	14,059	14,059	14,059	14,059	14,059	14,059
Primary NoR	12,224	12,301	12,397	12,326	12,213	11,952	11,637	11,448	11,213	11,051	10,981
Total Surplus	1,955	1,678	1,604	1,671	1,840	2,107	2,422	2,611	2,846	3,008	3,078
Total Surplus %	13.79%	12.00%	11.46%	11.94%	13.09%	14.99%	17.23%	18.57%	20.24%	21.40%	21.89%



## Y Sector Uwchradd

	Actual					Latest	Forecast				
Date	Sep-15	Sep-16	Sep-17	Sep-18	Sep-19	Sep-20	Sep-21	Sep-22	Sep-23	Sep-24	Sep-25
Secondary Schools	12	12	11	11	11	11	11	11	11	11	11
Secondary Capacity	11,142	10,772	10,772	10,718	10,718	10,718	10,718	10,718	10,718	10,718	10,718
Secondary NoR	9,563	9,403	9,188	9,314	9,471	9,559	9,646	9,737	9,676	9,551	9,375
Total Surplus	1,579	1,369	1,584	1,404	1,247	1,159	1,072	981	1,042	1,167	1,343
Total Surplus %	14.17%	12.71%	14.70%	13.10%	11.63%	10.81%	10.01%	9.15%	9.72%	10.89%	12.53%



### 3. Ffynonellau Cyllid Eraill

3.1 Mae gan y Cyngor nifer o ffynonellau cyllid ar gyfer ystyried ei flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer ei ysgolion. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Rhaglen fuddsoddi ysgolion a cholegau 21ain Ganrif LIC - (wedi'i hariannu'n rhannol gan LIC a'r Cyngor gyda chyfraddau ymyrraeth y cytunwyd arnynt)
- Rhaglen Gyfalaf y Cyngor (wedi'i hariannu gan y Cyngor) Cytunwyd ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2021/22 - 2023/24.
- Adeiladwaith A106 gan ddatblygwyr (sy'n cyfrannu at brosiectau ysgolion, yn hytrach na'u hariannu'n llawn)

3.2 O ran cyfraniadau A106 ar gyfer datblygiadau tai sydd y tu allan i'r rhai a nodwyd fel safleoedd a ddyrennir yn y CDLI (safleoedd annisgwyl), mae'r rhain yn anrhagweladwy o ran pryd y byddant yn cyrraedd system y cyngor. O ganlyniad, mae'n anodd rhagweld effaith y disgyblion hyn yn y system addysg gan nad yw'r datblygiadau hyn ond yn hysbys ar yr adeg pan fydd y datblygwr yn ymuno â'r broses caniatâd cynllunio.

3.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfraniadau A106 lle bo hynny'n briodol, i gefnogi darpariaeth gofynion lleoedd ysgol, lle mae nifer y disgyblion a gynhyrchir o'r datblygiad yn golygu y bydd yr ysgol o fewn 5% i'w chapasiti, fel yr amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd SPG23.

3.4 Ar gyfer yr ysgolion hynny (agosaf at y datblygiad) lle nad yw nifer y disgyblion o'r datblygiad yn mynd â'r ysgol y mae'r datblygiad yn effeithio arni o fewn 5% i gapasiti'r ysgol, ac o ganlyniad nid yw'n cwrdd â'r sbardun a nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd CCA23, ni cheisir cyfraniadau A106.

3.5 Cynhaliwyd Band "A" Rhaglen Buddsoddi Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru rhwng 2015 a 2019, gyda Sir y Fflint yn cwblhau ei holl brosiectau arfaethedig o fewn y llinell amser arfaethedig hon.

3.6 Mae band "B" y rhaglen hon yn cael ei gynnal rhwng 2019 a 2024/25. Cyflwynwyd Cynllun Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer y rhaglen hon i LIC, a chytunwyd ar yr amlen ariannu mewn egwyddor ar 29 Mawrth 2017.

3.7 Nid yw cyllid y tu hwnt i'r dyddiadau uchod wedi'i warantu. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gweithio tuag at ragdybiaeth o barhad strategaeth fuddsoddi'r Cyngor y tu hwnt i 2022, a bydd Band C Ysgolion 21ain Ganrif LIC y rhaglen fuddsoddi genedlaethol yn parhau ac yn cael ei gynnal yn ôl y disgwyl o 2025 - 2030.



#### 4. Safleoedd Strategol a Dyranedig

4.1 Mae Tabl 6 isod yn tynnu sylw at y safleoedd a ddyrennir ar gyfer tai (nodir fel 3-13) fel yr amlinellir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r safleoedd yn rhan o'r ddarpariaeth a gynlluniwyd ar gyfer tai yn y CDLI a bydd angen eu darparu erbyn 2030. Yn ogystal, cafodd dau safle strategol (nodir fel 1-2) eu cynnwys fel safleoedd datblygu defnydd cymysg yn y Strategaeth a Ffefrir yn 2018, a hefyd yn cael eu dyrannu yn y CDLI i'w Archwilio. Mae ganddynt elfen dai i'w cymysgedd o ddefnyddiau arfaethedig. Disgwylir i gyfanswm o 3168 o unedau gael eu hadeiladu dros gyfnod y CDLI.

**Tabl 6<sup>o</sup>: Mae'r tabl yn cynnwys yr holl ddatblygiadau, y mae rhai ohonynt eisoes wedi cychwyn am oes y CDLI**

Dynodwr	Safle	Ysgol Gynradd Agosaf	Ysgol Uwchradd Agosaf	Cyfanswm yr Unedau	Unedau Eithriedig	Cyfanswm yr Unedau Net	Disgyblion Cynradd a Gynhyrchi r	Disgyblion Uwchradd a Gynhyrchi r
1	STR3A Gogledd-orllewin o Garden City	Ysgol Gynradd Sealand	Ysgol Uwchradd Penarlâg	994		994	239	173
2	STR3B Warren Hall, Brychdyn	Higher Kinnerton, Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen	Yr Hob, Ysgol Uwchradd Castell Alun	300		300	72	52
3	HN1.7 Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo	Ysgol Gynradd Ewloe Green	Ysgol Uwchradd Penarlâg	298		298	72	52
4	HN1.8 Ash Lane, Penarlâg	Ysgol Eglwysig Pentref Penarlâg	Ysgol Uwchradd Penarlâg	288		288	69	50
5	HN1.6 Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd Gwernaffield, Yr Wyddgrug	Yr Wyddgrug, Ysgol Bryn Gwalia	Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Alun	246		246	59	43
6	HN1.11 Ffordd Caer, Penymynydd	Penymynydd, Ysgol Eglwysig St John	Bwcle, Ysgol Uwchradd Elfed	186		186	45	32
7	HN1.4 Ffordd Llanceurgain, Y Fflint	Y Fflint, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	Ysgol Uwchradd y Fflint	170		170	41	30

Dynodwr	Safle	Ysgol Gynradd Agosaf	Ysgol Uwchradd Agosaf	Cyfanswm yr Unedau	Unedau Eithriedig	Cyfanswm yr Unedau Net	Disgyblion Cynradda Gynhyrchi	Disgyblion Uwchradda Gynhyrchi
8	HN1.5 Maes Gwern, Yr Wyddgrug	Yr Wyddgrug, Ysgol Bryn Coch	Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Alun	160		160	38	28
9	HN1.1 Well St, Bwcle	Bwcle, Ysgol Gynradd Southdown	Bwcle, Ysgol Uwchradd Elfed	159		159	38	28
10	HN1.3 Highmere Drive, Cei Connah	Cei Connah, Ysgol Bryn Deva	Ysgol Uwchradd Cei Connah	150		150	36	26
11	HN1.10 Cae Isa, A5119, New Brighton	Ysgol Gynradd Sychdyn	Mynydd Isa, Ysgol Uwchradd Argoed	105		105	25	18
12	HN1.9 Ffordd Wrecsam, Yr Hôb	Ysgol Gynradd Abermorddu	Yr Hôb, Ysgol Uwchradd Castell Alun	80		80	19	14
13	HN1.2 Daliad Broad Oak, Cei Connah	Cei Connah, Ysgol Gynradd Gwepira	Ysgol Uwchradd Cei Connah	32		32	8	6
	<b>13</b>			<b>3,168</b>	<b>0</b>	<b>3,168</b>	<b>761</b>	<b>552</b>

4.2 Mae'r ysgolion cynradd ac uwchradd agosaf at bob safle wedi'u nodi yn y tabl yn ogystal â'r nifer bosibl o ddisgyblion y gellid eu cynhyrchu o ganlyniad i'r datblygiadau. Nodir y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu cynnyrch disgyblion o ddatblygiadau tai yn Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) 23 y Cyngor 'Cyfraniadau Addysg'. Gan ddefnyddio'r fformiwla y cytunwyd arni, mae'r safleoedd arfaethedig yn datblygu potensial o hyd at 1313 o ddisgyblion ychwanegol, a fyddai'n effeithio ar leoedd ysgol ledled Sir y Fflint.

4.3 Cynhaliwyd dadansoddiad lefel uchel i nodi problemau posibl yn yr ysgolion agosaf, gyda chamau arfaethedig i liniaru unrhyw bwysau a fyddai'n deillio o hynny.

4.4 Mae'r tabl isod yn nodi'r opsiynau sydd ar gael i'r ALI er mwyn rheoli effaith y cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion/ardal

**Tabl 7 – Opsiynau Gweithredu:**

<b><u>Canlyniad y Datblygiad</u></b>	<b><u>Ymateb Tebygol</u></b>
Gall ysgol neu ardal ddarparu'n gyfforddus ar gyfer pob disgybl a allai gael ei gynhyrchu o ddatblygiad	1: Nid oes angen gweithredu, ond bydd yn cael ei fonitro fel rhan o'n gweithgareddau monitro ddwywaith y flwyddyn
Gall ysgol neu ardal ddarparu'n gyfforddus ar gyfer pob disgybl a allai gael ei gynhyrchu o ddatblygiad, ond mae lleoedd gwag yn yr ysgol(ion) yn llai na 5%	2: Monitro nifer y disgyblion i sicrhau nad yw'r modd y darperir y cwricwlwm yn dioddef. Ceisio cyfraniadau datblygu A106 lle bo hynny'n briodol.
Gall ysgol neu ardal ddarparu rhywfaint o'r disgyblion a allai gael eu cynhyrchu o ddatblygiad, ond nid pob disgybl	3: Bydd niferoedd y disgyblion yn cael eu monitro, a lle bydd y galw yn codi, darperir ystafell ddosbarth symudol i fodloni diffyg yn y tymor byr, a cheisio cyfraniadau datblygu A106 lle bo hynny'n briodol.
Ni all ysgol neu ardal ddarparu ar gyfer y nifer o ddisgyblion a allai gael eu cynhyrchu o ddatblygiad	4: Darperir ystafell ddosbarth symudol lle bo hynny'n briodol i ddarparu ar gyfer y galw uniongyrchol, a cheisir cyfraniadau datblygu A106 lle bo hynny'n briodol tuag at fynd i'r afael â'r diffyg mewn anghenion o ran lle.
	5: Mae'r ardal neu'r ysgol eisoes wedi'i chynnwys yn rhaglen fuddsoddi'r Cyngor tan 2025. Mewn achosion o'r fath gellir adolygu problemau capasiti, a cheisir cyfraniadau datblygu A106 lle bo hynny'n briodol i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl.
	6: Bydd astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chomisiynu i bennu gofynion o ran lle, a cheisir cyfraniadau datblygu A106 tuag at gynigion lle bo hynny'n briodol.
	7: Os na fydd yr ysgol yn ysgol Awdurdod Leol, bydd angen cynnal trafodaethau gyda'r Awdurdod Esgobaethol ynghylch gofynion o ran lle. Caiff cyfraniadau datblygu A106 eu ceisio lle bo hynny'n briodol.
	8: Mae prosiect o fewn y rhaglen bresennol yn cael ei ddisodli am un sydd ag angen strategol mwy. Caiff cyfraniadau datblygu A106 eu ceisio lle bo hynny'n briodol.
	9: Yr ardal neu'r ysgol sydd i'w hystyried i'w chynnwys yn rhaglen fuddsoddi'r Cyngor y tu hwnt i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol 2021/22 - 2023/24 a neu fand ysgol C yr 21ain ganrif (2025-2030). Ceisir cyfraniadau datblygu A106 lle bo hynny'n briodol

## 5. **Gwybodaeth Gyffredinol**

- Niferoedd y Disgyblion a'r capasiti mewn ysgolion a ddyfynnir yw'r diweddaraf sydd ar gael (mis Medi 2020) ac amser llawn yn unig (h.y. ddim yn cynnwys niferoedd disgyblion meithrin, gan eu bod yn anstatudol)
- Caiff yr astudiaeth hon ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Gwneir addasiadau o ganlyniad i amrywiadau yn nifer y disgyblion.
- Mae'r adroddiad yn tybio y bydd disgyblion a gynhyrchir gan ddatblygiad arfaethedig yn dod i gyd ar unwaith. Fodd bynnag, mae datblygiad fel arfer yn dod mewn camau.
- Ni all ac nid yw'r dadansoddiad yn ystyried dewis rhieni drwy'r fframwaith derbyn, lle na all y Cyngor gyfeirio disgyblion i ysgol benodol neu lle nad yw'n gwybod beth yw dewisiadau rhieni cyn iddynt gyflwyno eu cais. Yn ôl y Gyfraith, rhaid gwneud trefniadau er mwyn galluogi rhieni i fynegi a ffafrio ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn/plant ei mynychu. Derbynnir pob disgybl os na chyrhaeddir y Nifer Derbyn. Mae hyn yn golygu y gallai rhieni gael lle mewn ysgol o'u dewis, hyd yn oed os nad yr ysgol honno yw'r ysgol agosaf at eu cartref. Mae'r Nifer Derbyn ar gyfer pob ysgol yn ymwneud â'r nifer o blant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Caiff y Nifer Derbyn ar gyfer ysgol ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r dull capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru".
- Nid yw'r ffigurau'n ystyried symudiad (cynhyrchiant) disgyblion o fewn yr ardal, maen nhw'n disgwyl y sefyllfa waethaf ar gyfer yr ysgol leol agosaf. Ni chyfeirir at gynhyrchiant mewn unrhyw ddogfen gyhoeddus oherwydd yn ein barn ni, mae'n gwanhau safbwynt y Cyngor ac yn agor y drws i fwy o her gan ddatblygwyr mewn perthynas â chyfraniadau A106 i ysgolion.
- Mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd y cynnyrch disgyblion a ragwelir oherwydd datblygiadau tai newydd arfaethedig yn cael mynediad i'w hysgol agosaf yn unol â Pholisi CCA23. Fodd bynnag, mewn ardaloedd lle mae ysgol enwadol neu Gymraeg yn cael ei nodi fel yr ysgol agosaf at y datblygiad arfaethedig, y gwir amdani yw y gall canran y disgyblion/rhieni ddewis ysgol arall.
- Arfer cenedlaethol yw y gellir ystyried a bodloni galwadau byrdymor am leoedd disgyblion drwy ddarparu ystafelloedd dosbarth symudol er mwyn asesu'r galw lleol parhaus cyn i fuddsoddiad cyfalaf gael ei ystyried a'i weithredu.

5.1 Gwneir amcanestyniadau disgyblion ddwywaith y flwyddyn i asesu'r galw am leoedd. Rhagwelir amcanestyniadau am uchafswm o 5 mlynedd yn unig oherwydd anwadalrwydd yn nifer y disgyblion a'r effaith ar gywirdeb o ganlyniad. Mae'r amcanestyniadau cyfredol yn dangos gostyngiad mewn nifer y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf.

5.2 Mae'r ddogfen "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" yn darparu arweiniad ar sut i fesur y capasiti mewn Ysgolion Awdurdod Cymreig. Mae'r asesiad capasiti yn cynnwys ardaloedd yn yr ysgol nad ydynt yn ystafelloedd dosbarth ond yn ardaloedd a ystyrir yn fannau addysgu, ac felly yn cyfrif am leoedd disgyblion yn yr asesiad capasiti cyffredinol. Felly, nid yw'r holl leoedd heb eu llenwi yn rhai "sbâr" ac ar gael ar gyfer mwy o ddisgyblion.

### Crynodeb Cynradd

Ysgol	Capasiti Cyfredol	Nifer Gyfredol ar y Gofrestr (mis Medi 20)	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol (mis Medi 20)	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol (mis Medi 20)	Datblygiadau	Amcanestyniad o Ddisgyblion Ychwanegol	Camau Gweithredu
Ysgol Gynradd Abermorddu	206	181	25	12.14%	(12) Ffordd Wrecsam, Yr Hôb	19	<b>Cam Gweithredu 9:</b> mynd i'r afael â maint canolfannau addysgu a mynd i'r afael â'r diffyg o ran addasrwydd a digonolrwydd.
Bwcle, Ysgol Gynradd Southdown	382	356	26	6.81%	(9) Well Street, Bwcle	38	<b>Cam Gweithredu 9:</b> Datblygu cynllun i gynyddu capasiti, cael gwared ar ystafelloedd dosbarth symudol, mynd i'r afael â maint a siâp y canolfannau addysgu presennol. Darparu neuadd o faint addas, darparu gofod stiwdio a thechnoleg bwyd. Darpariaeth AAA.
Cei Connah, Ysgol Gynradd Gwepra	307	296	11	3.58%	(13) Daliad Broad Oak, Cei Connah	8	<b>Cam Gweithredu 9:</b> Datblygu cynllun i gynyddu capasiti disgyblion, cynyddu maint y neuadd, darparu stiwdio a mynd i'r afael â'r modd y caiff gofodau ystafelloedd dosbarth eu trefnu.

Ysgol	Capasiti Cyfredol	Nifer Gyfredol ar y Gofrestr (mis Medi 20)	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol (mis Medi 20)	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol (mis Medi 20)	Datblygiadau	Amcanestyni ad o Ddisgyblion Ychwanegol	Camau Gweithredu
Cei Connah, Ysgol Bryn Deva	283	250	33	11.66%	(10) Highmere Drive, Cei Connah	36	<b>Cam Gweithredu 9:</b> Datblygu cynllun i fynd i'r afael â maint a siâp y mwyafrif o ganolfannau addysgu a darparu gofodau ymarferol a digon o doiledau. Darparu ystafell newid.
Ysgol Gynradd Ewloe Green	349	349	0	0.00%	(3) Ffordd Treffynnon/Green Lane, Ewlo	72	<b>Cam Gweithredu 6:</b> Cwblhau astudiaeth ddichonoldeb i bennu gofynion ehangu a'r angen i brynu tir ychwanegol ar gyfer y dyfodol
Y Fflint, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	317	211	106	33.44%	(7) Ffordd Llaneurgain, Y Fflint	41	<b>Cam Gweithredu 1:</b> Monitro niferoedd derbyn disgyblion, a'r galw am lefydd i ddisgyblion. Mynd i'r afael â'r galw byrdymor am leoedd ag adeiladau modiwlaidd nes bod y galw'n cael ei ddeall a'i fod yn gynaliadwy.
Ysgol Eglwysig Pentref Penarlâg	429	408	21	4.90%	(4) Ash Lane, Penarlâg	69	<b>Cam Gweithredu 7:</b> Astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau ac opsiynau ar gyfer ehangu wedi'u nodi. Mynd i'r afael â diffygion o ran lle addysgu, a chynyddu capasiti'r ysgol Ymgysylltu â'r Esgobaeth.
Ysgol Gynradd Higher Kinnerton	201	185	16	7.96%	(2) Warren Hall	72	<b>Cam Gweithredu 9:</b> Datblygu cynllun i gynyddu capasiti disgyblion. Ceisio cyfraniadau A106 lle bo angen.
Yr Wyddgrug, Ysgol Bryn Coch	599	560	39	6.51%	(8) Maes Gwern, Yr Wyddgrug	38	<b>Cam Gweithredu 2:</b> Monitro'r gofynion am lefydd i ddisgyblion yn ardal Yr Wyddgrug. Ceisio cyfraniadau A106 yn ôl y gofyn er mwyn mynd i'r afael â diffygion o ran darpariaeth.

Ysgol	Capasiti Cyfredol	Nifer Gyfredol ar y Gofrestr (mis Medi 20)	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol (mis Medi 20)	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol (mis Medi 20)	Datblygiadau	Amcanestyniad o Ddisgyblion Ychwanegol	Camau Gweithredu
Yr Wyddgrug, Ysgol Bryn Gwalia	210	158	52	24.76%	(5) Tir rhwng Ffordd Dinbych/Ffordd Gwernaffield	59	<b>Cam Gweithredu 2:</b> Monitro'r gofynion am lefydd i ddisgyblion yn ardal Yr Wyddgrug. Ceisio cyfraniadau A106 yn ôl y gofyn er mwyn mynd i'r afael â diffygion o ran darpariaeth.
Ysgol Wirfoddol St John Penymynydd	110	101	9	8.18%	(6) Ffordd Caer, Penymynydd	45	<b>Cam Gweithredu 6 a 7:</b> Trafod y galw am addysg ffydd gyda'r Esgobaeth, comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i benderfynu sut y gellid cynyddu capasiti.
Ysgol Gynradd Sealand	215	167	48	22.33%	(1) Gogledd-orllewin o Garden City	239	<b>Cam Gweithredu 6:</b> Astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau i bennu opsiynau ar gyfer ehangu ar y safle. Dyraniad tir gan ddatblygwr ar gyfer ehangu'r ysgol yn cael ei gyflwyno. Ceisio cyfraniadau datblygwr lle bo angen.
Ysgol Gynradd Sychdyn	177	153	24	13.56%	(11) Cae Isa, A5119, New Brighton	25	<b>Cam Gweithredu 9:</b> Mynd i'r afael â maint a siâp y canolfannau addysgu i gynyddu capasiti, cynyddu maint y neuadd, darparu lle newidiol. Ceisio cyfraniadau datblygwr lle bo angen.

## Y Sector Cynradd - Argymhellion

- Datblygu cynlluniau mewn ardaloedd lle mae ysgolion poblogaidd a / neu safleoedd datblygu tai Strategol / safleoedd Ymgeisydd lle na ellir bodloni'r galw.
- Ymgynghori â'r Awdurdod Esgobaethol mewn perthynas â phroblemau posibl ar gyfer ysgolion Pentref Penarlâg a Phentrobin.
- Adolygu capasiti ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen fuddsoddi gyfredol, sef Ysgol Croes Atti, Ysgol Gynradd Drury, Ysgol Gynradd Mynydd Isa, ysgolion cynradd Saltney.
- Cynnal dichonoldeb a datblygu cynlluniau y gellir ceisio cyfraniadau datblygu A106 ar eu cyfer tuag at fuddsoddiad cyfalaf lle bo hynny'n briodol.



## Crynodeb Uwchradd

Ysgol	Capasiti Cyfredol	Nifer Gyfredol ar y Gofrestr	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol	Datblygiadau	Disgyblion Ychwanegol	Ymateb Tebygol
Bwcle, Ysgol Uwchradd Elfed	983	893	90	9.16%	(6) Ffordd Caer, Penymynydd (9) Well Street, Bwcle	32 28	<b>Cam Gweithredu 5:</b> Cynyddu capasiti fel rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion C21 arfaethedig, Band "B"
Ysgol Uwchradd Cei Connah	1200	1060	140	11.67%	(10) Highmere Drive, Cei Connah (13) Daliad Broad Oak, Cei Connah	26 6	<b>Cam Gweithredu 2:</b> Monitro niferoedd disgyblion – Ceisio cyfraniadau A106 lle bo hynny'n briodol er mwyn mynd i'r afael â phwysau o ran lleoedd i ddisgyblion, darpariaeth ar gyfer gwyddoniaeth, astudiaethau busnes a gofodau addysgu yn gyffredinol
Ysgol Uwchradd y Fflint	797	850	-53	-6.65%	(7) Ffordd Llaneurgain, Y Fflint	30	<b>Cam Gweithredu 5:</b> Adolygu a chynyddu capasiti'r ysgol fel rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion C21 arfaethedig, Band "B" Ceisio cyfraniadau datblygwr lle bo angen.
Ysgol Uwchradd Penarlâg	1145	1133	12	1.05%	(1) Gogledd-orllewin Garden City (3) Ffordd Treffynnon/Green Lane, Ewlo (4) Ash Lane, Penarlâg	173 52 50	<b>Cam Gweithredu 6:</b> Astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau ar gyfer Ysgol Uwchradd Penarlâg. Nodwyd opsiynau ar gyfer ehangu i ddarparu lle i fynd i'r afael â diffygion o ran gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, celf, cerddoriaeth, gofod bwyta, addysgu cyffredinol a thoiledau. Ceisio cyfraniadau datblygwr lle bo angen.
Yr Hôb, Ysgol Uwchradd Castell Alun	1240	1335	-95	-7.66%	(12) Ffordd Wrecsam, Yr Hôb (2) Warren Hall, Brychdyn	14 52	<b>Cam Gweithredu 5:</b> Mae'r cynllun buddsoddi cyfalaf eisoes yn cael ei ddatblygu gyda dyddiad arfaethedig i ddechrau ar y safle yn ystod Haf 2020. Ni chymeradwyir ehangu'r ysgol hon ymhellach. Ysgolion amgen yn yr ardal o dan bwysau. Ceisio cyfraniadau A106 tuag at ysgol newydd yn Bretton.

Ysgol	Capasiti Cyfredol	Nifer Gyfredol ar y Gofrestr	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol	Nifer y Llefydd Gwag Cyfredol	Datblygiadau	Disgyblion Ychwanegol	Ymateb Tebygol
Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Alun	1768	1618	150	8.48%	(5) Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd Gwernaffield, Yr Wyddgrug (8) Maes Gwern, Yr Wyddgrug	43  28	<b>Cam Gweithredu 5:</b> Adolygu capasiti'r ysgol a datblygu cynllun fel rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion C21 arfaethedig, Band "B"
Mynydd Isa, Ysgol Uwchradd Argoed	580	519	61	10.52%	(11) Cae Isa, A5119, New Brighton	18	<b>Cam Gweithredu 5:</b> Adolygu a chynyddu capasiti'r ysgol fel rhan o brosiect buddsoddi cyfalaf Band "B" Rhaglen Moderneiddio Ysgolion C21.

### Y Sector Uwchradd – Argymhellion cyffredinol

- Mewn ardaloedd lle mae ysgolion poblogaidd a/neu safleoedd datblygu tai Strategol/safleoedd Ymgeisydd ac ni all ysgolion ateb y galw am leoedd, dylid datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â diffygion yn y ddarpariaeth, a cheisio cyfraniadau datblygu A106 tuag at y prosiectau hyn lle bo hynny'n briodol.
- Adolygu capasiti ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen fuddsoddi gyfredol, sef Ysgol Uwchradd Penarlâg, Ysgol Uwchradd Elfed, Ysgol Uwchradd y Fflint, Ysgol Uwchradd Argoed a darpariaeth uwchradd yn ardal Saltney / Brychdyn.
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb